

Bwrlwm

Bydd cyfle i aelodau a chyfeillion Capel Bethlehem gyfarfod am banded a sgwrs yn Bwrlwm am 2.15 o'r gloch ddydd Iau, Medi 20.

Cynhelir

Bore Coffi Macmillan

yn Capel Coch

ddydd Gwener

Medi 28

rhwng 10.30 a 2.00
o'r gloch

Croeso cynnes

Er budd
Cefnogaeth Cancr Macmillan

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 23

5.00 p.m. - Y Parchg Cledwyn Williams,
Bangor

Medi 30

5.00p.m. - Mr Thomas Alun Williams,
Caernarfon

Hydref 7

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 23: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

Nos Lun, Medi 24: Cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 23: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog a Susan Williams.

CARMEL

Dydd Sul, Medi 23: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Medi 20: Cynhelir Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 23: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 23: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Medi 30

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones,
Pwllheli
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Hydref 7

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Gronyn

Rhif 766
16 Medi, 2018



Criced ddoe a heddiw

Os darllenoch chi bapur newydd neu os gwelsoch chi fwletin newyddion yn ystod yr wythnos mi glywsoch ddiagon am griced. Yn ei gêm brawf olaf a'i fatiad olaf dros ei wlad yn yr olaf o gemau'r gyfres yn erbyn tîm India, sgoriodd cyn-gapten tîm criced Lloegr, Alastair Cook, 147 o rediadau. Erbyn diwedd y gêm, roedd peth o'r sylw wedi troi at James Anderson gan ei fod o bellach wedi cipio mwy o wicedi mewn gemau prawf na'r un bowliwr cyflym arall. Hyd yn oed os yw criced yn gêm gwbl ddieithr i chi, byddai wedi bod yn anodd osgoi'r sylw a roddwyd iddi ddechrau'r wythnos.

A byddai wedi bod yn anodd osgoi'r trafod a fu ar griced hanner canrif yn ôl i heddiw, wedi i Tom Cartwright gael ei anafu. Nid bod hwnnw'n chwaraewr o bwys mawr chwaith, ond oherwydd yr anaf fe ddewiswyd Basil D'Oliveira i garfan Lloegr a oedd ar gychwyn i Dde Affrica. Roedd D'Oliveira wedi chwarae dros Loegr yn ystod yr haf, ond heb gael ei gynnwys yn y garfan ar gyfer De Affrica. Roedd Llywodraeth De Affrica wedi bygwth canslo'r daith pe byddai D'Oliveira, y chwaraewr croenddu a oedd yn hanu o'r wlad, yn rhan ohoni. Cafodd dewiswyr y garfan eu beirniadu'n hallt gan rai, yn Lloegr a De Affrica, am ildio i'r Llywodraeth a'i pholisi Apartheid trwy beidio â'i gynnwys. O ganlyniad, byddai wedi bod yn anodd iddynt wneud hynny'r eildro pan anafwyd Cartwright; ac ar Fedi 16, 1968 fe ddewiswyd D'Oliveira i'r garfan yn ei le.

Drannoeth, dan arweiniad Llywodraeth a Phrif Weinidog De Affrica, B. J. Vorster, fe ganslwyd y daith. Ac o ganlyniad, fe waharddwyd De Affrica rhag chwarae gemau rhyngwladol. Parodd y gwaharddiad hwnnw am 22 o flynyddoedd. Erbyn i'r gwaharddiad gael ei ddileu, roedd Nelson Mandela wedi ei ryddhau o'r carchar a'r drefn Apartheid yn prysur ddatgymalu.

Chwaraeodd Basil D'Oliveira 44 o gemau prawf dros Loegr, ond y gemau hynny yn Ne Affrica ddiwedd 1968 a dechrau 1969 na chwaraeodd ef na neb arall ynddynt a'i gwnaeth yn gricedwr mor bwysig a dylanwadol. Daeth y gŵr hwn yn rhan o stori ddychrynlyd o drist trefn anghyfiawn Apartheid yn Ne Affrica. A dim ond hanner can mlynedd sydd ers yr helynt! Ond yn fwy rhyfeddol fyth, dim ond ychydig dros ugain mlynedd sydd ers i'r drefn Apartheid gael ei dileu yn Ne Affrica. Mae anghyfiawnderau'r gorffennol yn llawer nes atom nag a sylweddolwn. Ond gall anghyfiawnderau'r presennol fod yn nes fyth. Ac oherwydd hynny, fe ddylai Cristnogion fod yn awyddus i wneud popeth posibl i warchod pobl a gaiff eu cam drin a'u gormesu mewn unrhyw ffordd. Nid yw hynny'n rhwydd, yn arbennig os yw polisiau ein llywodraethau ni ein hunain, a hyd yn oed ein ffordd ni o fyw, yn rhannol gyfrifol am beth o'r gormes hwnnw. Gweddiwn, am gariad i sefyll o blaid y gwan, am ddewrder i herio pob math o anghyfiawnderau, ac am ras i newid ein hymddygiad, er clod i Dduw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys Parry, Llandudno ac am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at y rhai ohonoch sydd heb fod mewn iechyd da ar hyn o bryd. Gweddiwn dros ein gilydd yn ein gwahanol amgylchiadau.

Balm o Salm



'Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r ARGLWYDD, **BYW Y BEIBL** yr holl ddaear. Addolwch yr ARGLWYDD mewn llawenydd, dewch o'i flaen â chân. Gwybyddwch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw; ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym, ei bobl a defaid ei borfa. Dewch i mewn i'w byrth â diolch, ac i'w gynteddau â mawl. Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw. Oherwydd da yw'r ARGLWYDD; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenedlaeth (Salm 100).

"Dad trugarog, gwarchod dros bawb sy'n dioddef yn ein plith oherwydd afiechyd a gwendid o unrhyw fath, a galluoga nhw i bwysio arnat bob dydd."

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Edwyn a Nicola Roberts, Llanberis a'r teulu o glywed am farwolaeth tad Edwyn. Mr Glyn Roberts, Dinas ar ddydd olaf mis Awst.

Cymdeithas Undebol

Wedi saib byr, mae'n dda dweud fod Cymdeithas Undebol Deiniolen yn ail ddechrau. Bydd y cyfarfod cyntaf yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos Lun, Medi 24. Bydd croeso i aelodau hen a newydd i'r cyfarfodydd.

Diolch yn fawr iawn i Glyn Gruffudd am drefnu rhaglen ar gyfer y tymor newydd. Gobeithio bydd modd i gymaint â phosibl ddod i'r cyfarfodydd eleni.

Cynllun Efe

Cyfarfu Ymddiriedolwyr Cynllun Efe a Phwyllgor Rheoli'r gwaith yng Nghapel Caeathro ddydd Llun diwethaf.

Trefnwyd i gynnal Oedfa Gomisiynu ein gweithiwr newydd, Susan Williams, yng Nghaeathro am 7.00 o'r gloch nos Iau, Hydref 18. Edrychwn ymlaen at gael croesawu Susan yn ffurfiol i'w swydd gyda ni yng Nghynllun Efe, Caersalem Caernarfon a Scripture Union Cymru. Daw rhagor o fanylion yn nes ymlaen am y cyfarfod hwn a fydd hefyd yn Gyfarfod Blynyddol Cynllun Efe.

Dymuniadau da

Dymunwn bob bendith i'r Parchg Carol Roberts sydd wedi ei phenodi i swydd newydd yn rheithor yn Y Bala. Caiff ei chroesawu i'w swydd newydd mewn Gwasanaeth Trwyddedu a gynhelir yn Eglwys Crist, Y Bala, am 3.30 o'r gloch ddydd Sul, Hydref 14.

Wrth ddymuno'n dda i Carol, diolchwn iddi am y cydweithio braf a fu rhyngom trwy flynyddoedd ei gweinidogaeth yma yn Llanberis a Deiniolen, yn cynnwys ei harweiniad a'i chymorth mawr i dîm 'Agor y Llyfr' yn Neiniolen. Dymunwn y gorau iddi hi a'i phriod Dafydd yn eu cylch newydd ym Mhenllyn.

Coffad

Fel y soniwyd bydd rhifynnau nesaf *Gronyn* yn cynnwys coffad i'r aelodau a fu farw ers cyhoeddi Gronyn ddiwethaf.

Mrs Ann Roberts

Cynhaliwyd angladd Mrs Ann Wilson Roberts, 17 Ffordd Capel Coch, Llanberis yn Capel Coch ac Amlogsgfa Bangor ddydd Gwener, Awst 24. Bu farw Ann yn Ysbyty Gwynedd ddydd Llun, Awst 20, yn 68 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn o'r newydd â'i phriod Gareth; ac â Mared, Gwenno a Rhys, Rhydian ac Eleri, a'r wyrion Gwernan, Llew, Guto, Lleucu, Myfi a Cobie; ac â'i chwaer Heulwen a'r holl deulu.

Roedd y ddau wasanaeth yng ngofal y

Gweinidog. Yn yr oedfa ym Mangor cafwyd teyrnged i Ann gan ffrind agos i'r teulu, Paul Evans. Bethan Holding oedd yr organydd.

Wedi ei magu yn Llanberis, yn Rhiwlas y bu Ann a Gareth yn byw wedi iddynt briodi, ac yno y magwyd eu tri phlentyn Mared, Gwenno a Rhydian. Dychwelodd Ann i Lanberis ryw bedair blynedd yn ôl pan ymgartrefodd hi a Gareth yn Ffordd Capel Coch. Yn fuan wedyn, daeth atom i'r oedfaon yn Capel Coch ac o fewn dim cawsom y fraint o'i chroesawu'n aelod o'r eglwys. Bu'n ffyddlon i'r oedfaon ers hynny, a braf oedd cael ei chwmmi bob amser. Roedd yn berson annwyl a hwyliog, ac yn gyfaill cywir. Roedd ei theulu'n golygu popeth iddi, ac yr oedd wrth ei bodd yn eu chwmmi. Roedd yn llawn consyrn nid yn unig am ei theulu ei hun ond am ffrindiau a chymdogion; a diolchwn am y gofal a'r gefnogaeth a roddodd i gynifer o bobl. Cafodd Ann flynyddoedd o waeledd, ond trwy bob triniaeth daliodd yn gwbl gadarnhaol ei hagwedd, ac yn obeithiol a di-gwyn ei hysbryd. Heb os, yr oedd cefnogaeth ei theulu'n gymorth mawr iddi wynebu'r cyfan; a thrwy'r cwbl, yr oedd ei ffydd gadarn yn Nuw a gobaith sicr y Ffydd Gristnogol yn nerth a chynhalieth iddi.

Llywydd Newydd

Llongyfarchiadau i'r Parchg Marcus Robinson a gafodd ei ethol yn ddiweddar i swydd Llywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ar gyfer 2019–2020. Dymuniadau gorau iddo pan ddaw i'r swydd yr haf nesaf.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener. Diolch yn fawr i'r rhai sy'n helpu i gynnal CIC yn rheolaidd. Mae'r criw yn awyddus iawn i ddiolch hefyd i Colin Jones am ei gefnogaeth a'i waith yn agor a threfnu'r capel ar gyfer CIC dros fisoedd y gwanwyn a'r haf.